GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Hydref 2018

Sifftio	
A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	27 Tachwedd 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Yr wythnos yn dechrau 26 Tachwedd 2018
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	28 Tachwedd 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 26
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau yn mynd i'r afael â 9 darn perthnasol uniongyrchol o ddeddfwriaeth yr UE. Mae'r rhain yn ymwneud â sefydlu fframwaith bioddiogelwch ledled yr UE ar gyfer afiechydon pysgod a physgod cregyn. Maent hefyd yn nodi proses ar gyfer symud rhywogaethau estron dyfrol. Maent yn disodli cyfeiriadau at System Rheoli ac Allforio Masnach yr UE (TRACES) gyda chyfeiriadau at system y DU ar gyfer hysbysiadau rheoli mewnforio. Caiff cyfeiriadau at symudiadau rhwng aelod-wladwriaethau'r UE eu newid i gyfeirio at symudiadau rhwng yr UE a'r DU. Mae rhestr o'r

afiechydon sy'n destun rheolaethau ledled yr UE wedi'u datgan eto. Yn olaf, mae rhai croesgyfeiriadau diffygiol wedi'u cywiro.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.